Gorslas Primary School,
Black Lion Road,
Gorslas
Llanelli
Carmarthenshire.
SA14 6RS

Pennaeth Headteacher **Mrs B. Owen (B.Ed)**
Deputy Head / Dirprwy Bennaeth:
Mrs A Price (B.Ed)
Tel (01269)842929
email:Beverley.owen@gorslas.ysgolccc.cymru

Gorslas Primary School,
Black Lion Road,
Gorslas
Llanelli
SA14 6RS

◆◆

03/09/21

Annwyl Rieni/Warchodwyr

Croeso yn ôl i bawb gan gynnwys yr 16 plentyn newydd sydd wedi dechrau yn yr ysgol. Estynnir croeso cynnes i Miss Sarah Williams sydd wedi ymuno â'r staff yn absenoldeb Miss Hannah Lewis (Blwyddyn 1) sy'n dechrau ei chyfnod mamolaeth.
Mae tymor newydd wedi dechrau ac hoffwn dynnu eich sylw tuag at y materion islaw.

Amser dechrau – cyrraedd yr ysgol rhwng 8.45yb a 9yb (os and yw eich plentyn yn mynychu'r Clwb Brecwast)
Amser gorffen – Plant dosbarth Mrs Price Derbyn, Miss Williams Blwyddyn 1 a Mrs Thomas Blwyddyn 2am 3 o'r gloch
Plant blwyddyn 3-6 am 3.30yp
Fe fyddwn yn parhau â'r system un ffordd sef, i fewn trwy'r brif fynedfa, ar draws yr iard ac allan drwy'r maes parcio. Bydd y giat waelod ar agor yn ystod y bore ac ar ddiwedd y dydd yn unig.

Clybiau.

Mae Clwb Brecwast am ddim yn yr ysgol bob bore rhwng 8 o'r gloch a 8.30yb ac mae ar gael i bob plentyn yn yr ysgol. **Ni fydd** yr ysgol ar agor cyn 8 o'r gloch ac ni fydd brecwast yn cael ei ddarparu ar ôl 8.30yb.
Bydd clybiau ar ôl ysgol yn dechrau yn ystod y tymor. Cewch mwy o wybodaeth yn ystod yr wythnos nesaf.

Llythyron a gwybodaeth pwysig.

Fe fydd pob llythyr ac unrhyw wybodaeth pwysig yn cael eu rhoi ar wefan yr ysgol ac ar Ourschoolsapp (sydd ar gael i bawb i lawr lwytho ar eu ffon/tabled) ac fe fydd copi caled yn cael ei ddosbarthu hefyd. Mae tudalen Trydar a chyfri 'Ysgol Gynradd Gorslas' ar Facebook (gyda logo'r ysgol) gennym lle fyddwn yn llwytho gwaith a lluniau o'r plant wrth eu gweithgareddau er mwyn i chi gael gweld. Mae rhain yn breifat ac **ni** fyddwn yn llwytho dim tan ein bod yn cael eich caniatad i'w wneud.
Os ydych am wybodaeth pellach ynglyn ag ourschoolsapp, croeso i chi gysylltu â'r ysgol.

Rhifau cyswllt / newidiaeth mewn trefniadau

Os mae eich rhif ffôn wedi newid o fewn yr wythnosau diwethaf neu os mae eich trefniadau wedi newid, a fyddwch yn fodlon trosglwyddo'r wybodaeth i aelod staff os gwelwch yn dda.

Absenoldebau.

Os mae eich plentyn yn absennol o'r ysgol, a fyddwch yn fodlon ein hysbysebu naill ai drwy alwad ffôn neu e bost. Os na fyddwch yn cael ateb ar y ffôn yn syth gadewch neges ar y peiriant a byddwn yn codi'r neges.
Os ydych yn casglu eich plentyn yn gynnar o'r ysgol ar unrhyw adeg o fewn oriau ysgol a wnewch chi rhoi gwybod i'r staff ac fe fydd angen arwyddo'r gofrestr os gwelwch yn dda.

Meddygyniaeth

Os mae eich plentyn ar unrhyw feddygyniaeth, a wnewch ysgrifennu nodyn i'r athrawes ddosbarth a llofnodi ffurflen yn yr ysgol.

Os ydych am unrhyw wybodaeth pellach, cysylltwch â mi yn yr ysgol.

Diolch i chwi am eich cyd weithrediad
B Owen